Deddf yr Amgylchedd 2016: Nodyn Canllaw

Dyletswydd Statudol: Deddf yr Amgylchedd

Mae Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn disodli ac yn cryfhau'r ddyletswydd bioamrywiaeth flaenorol o dan Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 fel bod:

Rhaid i bob awdurdod cyhoeddus, wrth wneud eu dyletswyddau mewn perthynas â Chymru[1] geisio "**cynnal a gwella bioamrywiaeth**" lle bynnag bo'n bosibl wrth ymgymryd â'u swyddogaethau[2].

Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus geisio hefyd i "**hyrwyddo gwytnwch ecosystemau**".

Mae Adran 6 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus i ystyried effaith y penderfyniadau a gymerwyd, neu'r gweithgareddau a wnaed, **yng Nghymru, ond hefyd mewn perthynas â bioamrywiaeth tu allan i Gymru.**[3]

O dan isadran (6), mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu beth maent yn cynnig ei nweud i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Ystyried unrhyw ganllaw a roddwyd gan Weinidogion Cymru, a'r dogfennau a restrwyd yn y ddeddfwriaeth.

Beth mae o'n ei olygu?

Ystyr **'bioamrywiaeth'** yw'r amrywiaeth bywyd ar y Ddaear. Ein bywyd gwyllt, rhywogaethau a chynefinoedd eiconig; mae bioamrywiaeth wrth wraidd ein bywydau a'n bywoliaeth ac yn cefnogi swyddogaeth a gwytnwch ecosystemau.

Mae **ecosystemau** yn unedau swyddogaethol sy'n cynnwys ein horganebau byw gyda'u hamgylchedd ddifywyd (aer, dŵr, mwynau a phridd) a'r holl ryngweithio cymhleth sy'n digwydd rhyngddynt. Ein moroedd, gwlyptiroedd, llynnoedd, afonydd, mynyddoedd, coedwigoedd a thirweddau amaethyddol.

Mae **Ecosystem Wydn** yn amrywiol, yn gysylltiedig, ar raddfa fawr, mewn cyflwr iach ac yn addasadwy. Mae ein economi, iechyd a lles yn dibynnu ar ecosystemau iach a gwydn, sy'n ein darparu â'n bwyd, dŵr glân a'r aer a anadlwn, y deunyddiau crai a'r ynni ar gyfer ein diwydiannau a'n hamddiffyn yn erbyn peryglon, megi' llifogydd a newid hinsawdd.

---

[1] Mae'r ddyletswydd hefyd yn berthnasol i Awdurdodau Cyhoeddus y DU lle mae swyddogaethau'n cael eu gwneud yng Nghymru, neu mewn perthynas â Chymru. Mae dau eithriad wedi eu hamlinellu yn isadran (3): nid yw swyddogaethau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a swyddogaethau **barnwrol** llysoedd a thribiwnlysoedd yn rhwym I'r ddyletswydd. Fodd bynnag mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn dal i ddod o dan Ddyletswydd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig mewn perthynas â Chymru.

[2] Ni fwriedir I swyddogaethau cyffredinol awdurdod a'r ddyletswydd bioamrywiaeth wrthdaro. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol pan fo awdurdodau cyhoeddus yn ymgymryd â'u swyddogaethau.

[3] Mae hyn hefyd yn uchafu'r cyfraniad i'r nod Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Pwy sy'n gyfrifol?

Mae'r ddyletswydd yn berthnasol wrth ymarfer swyddogaethau sefydliad, felly mae'n berthnasol i bwy bynnag sy'n gyfrifol am y swyddogaethau hynny, ac sy'n gwneud penderfyniadau yn eu cylch.

Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb trosfwaol am gydymffurfio yn gorwedd gyda phennaeth y sefydliad, y Prif Weithredwr.

Yr hyn y mae angen i ni ei wneud[4]:

- **Ymgorffori bioamrywiaeth mewn gwneud penderfyniadau ar bob lefel:** Dylai hyn ddechrau ar y lefel gorfforaethol, lle dylai meddwl a chynllunio yn gynnar geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, gan atal ei golli yn y lle cyntaf.
- **Paratoi a chyhoeddi Cynllun A6:** Mae cynllun A6 Sir y Fflint wedi'i baratoi ac ar gael yn yr adran Cynlluniau, Polisïau a Deddfwriaeth.
- **Adrodd ar y Cynllun A6:** Mae angen adrodd bob 3 blynedd – bydd y cam adrodd cyntaf yn cael ei wneud yn 2019
- **Defnyddio polisi caffael Amgylcheddol cynaliadwy a moesegol:** Byddai angen ystyried goblygiadau bioamrywiaeth penderfyniadau prynu – A ellir ei brynu oddi wrth ffynhonnell mwy cynaliadwy yn lleol? A fydd yn cael effaith niweidiol ar ardal a warchodir?

Sut mae angen i ni ei wneud:

Mae angen i ni arwain y ffordd o ran hyrwyddo synnwyr cyffredin ac ymagwedd norm cymdeithasol tuag at fyw a gweithio'n fwy cynaliadwy, bydd hyn angen ymagwedd gyfannol newydd tuag at weithio.

Efallai bydd angen i ni feddwl yn wahanol a herio ffyrdd tymor hir o weithio.

Mae angen i ni ystyried datrysiadau sy'n seiliedig ar natur, yn aml mae gan y rhain fanteision lluosog ar gyfer cymunedau ac maent yn darparu manteision i fioamrywiaeth hefyd.
Er enghraifft: Plannu mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd blodau gwyllt i wella'r amgylchedd lleol ar gyfer teithio llesol a hamdden, helpu lliniaru llifogydd dŵr wyneb, gwella ansawdd yr aer ac annog buddsoddiad lleol.

Mae byw yn gynaliadwy yn aml yn arwain at arbedion ariannol er enghraifft arbed ynni, gwastraffu llai a gostwng ychydig ar reolaeth tir.

Os oes gennych unrhyw syniadau ynghylch sut gallai Sir y Fflint wella prosesau'r cyngor ar gyfer bioamrywiaeth a/neu cynaliadwyedd e-bostiwch biodiversity@flintshire.gov.uk Rhowch Sir y Fflint Wyrddach yn y bar testun.

[4] Nodau cydymffurfio a amlinellwyd yn WG S6 FAQs

Deddfwriaeth a pholisi cysylltiedig:

Mae gan Gyngor Sir y Fflint nifer o oblygiadau ychwanegol trwy ddeddfwriaeth cenedlaethol ac ymrwymiadau Cyngor lleol i warchod a gwella ein bioamrywiaeth, gwella ein perfformiad a chynaliadwyedd amgylcheddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Dyletswydd Statudol: Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol

O dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)[5] mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru:

- Ymgymryd â datblygu cynaliadwy trwy ddangos y 5 ffordd o weithio
- Cyhoeddi amcanion lles sy'n uchafu ei gyfraniad i'r 7 nod lles a amlinellir yn y Ddeddf. Y nodau hyn yw; Cymru ffyniannus, Cymru wydn, Cymru iachach, Cymru mwy cyfartal, Cymru â chymunedau cydlynol, Cymru â diwylliant ac iaith Gymraeg hyfyw a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae'r nod Cymru Wydn yn cyfeirio'n benodol at genedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd bioamrywiol naturiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).

Ymrwymiad Lleol: Cynllun y Cyngor 2017/2018

O dan Gynllun diweddaraf y Cyngor, mae gan Gyngor Sir y Fflint yr Ymrwymiadau Cyngor Gwyrdd canlynol:

- Rheoli ein amgylchedd naturiol a rhwydweithiau gofod gwyrdd hygyrch i ddarparu nodau iechyd, lles a gwytnwch.
- Uchafu potensial ystâd ac asedau'r Cyngor ar gyfer effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan leihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil.
- Sicrhau darpariaeth o isadeiledd effeithiol i ddarparu datblygiad cynaliadwy.
- Uchafu adferiad ac ailgylchu gwastraff gyda'r bwriad o leihau dibyniaeth ar dirlenwi.
- Cryfhau trefniadau cydweithio rhanbarthol ar ansawdd aer er mwyn helpu i hyrwyddo gwell canlyniadau i iechyd a lles.

Ymrwymiad Lleol: Nodau Lles CSFf 2017/2018

- Lleihau'r defnydd o ynni a defnyddio a datblygu ynni adnewyddadwy/amgen.
- Gwella'r amgylchedd naturiol a hyrwyddo mynediad i ofod agored a gwyrdd.
- Gwneud y mwyaf o adfer ac ailgylchu gwastraff.

[5] I gael testun llawn y ddedfwriaeth ewch i: http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=en